Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

Tachwedd 2025

(Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg)

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

# Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

## Ymarfer Hapsamplu'r Panel Craffu
## Ymgyrch Soteria – Dioddefwyr Treisio a Throseddau Rhyw Difrifol

## Canfyddiadau ac Adborth yr Aelodau

## Tachwedd 2025

## Cynnwys


1. Trosolwg, cefndir, diben a methodoleg 3
2. Crynodeb gweithredol 5
3. Materion a godwyd gan y Panel Sicrhau Ansawdd 8
4. Adolygiad o achosion o dreisio a throseddau rhyw difrifol 13
5. Camau nesaf 26

## 1. Trosolwg, cefndir, diben a methodoleg

Mae'r cylch gorchwyl Sicrhau Ansawdd ar gael ar wefan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu, sy'n nodi cefndir, diben a methodoleg y panel.

Ar 26 Tachwedd 2025, cyfarfu aelodau'r Panel Sicrhau Ansawdd ym Mhencadlys Heddlu Dyfed-Powys i ailedrych ar ddetholiad o ddigwyddiadau yn ymwneud â dioddefwyr treisio a throseddau rhyw difrifol.

Mae Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu, mewn cydweithrediad â'r heddlu, wedi cytuno i ailedrych ar y pwnc hwn er mwyn cryfhau cadernid a gwerth eu canfyddiadau o'r adroddiad ym mis Medi. Yn gyntaf, drwy gynyddu maint y sampl, bydd y Panel Sicrhau Ansawdd yn gallu dod i gasgliadau sy'n fwy cynrychioliadol a dibynadwy, gan sicrhau nad yw unrhyw batrymau neu bryderon a nodwyd yn seiliedig ar achosion ar eu pen eu hun. Yn ail, mae'r adolygiad hwn yn gyfle i sefydlu mwy o atebolrwydd mewn perthynas â digwyddiadau gweithredol, gan sicrhau bod y camau a gymerir yn dryloyw ac yn destun goruchwyliaeth briodol. Yn olaf, mae ailedrych ar y pwnc yn caniatáu i'r Panel Sicrhau Ansawdd adeiladu ar waith blaenorol, gan ddyfnhau ei ddealltwriaeth ac atgyfnerthu ei ymrwymiad i welliant parhaus mewn ymarfer a chanlyniadau i ddioddefwyr treisio a throseddau rhyw difrifol.


Cafodd y Panel Sicrhau Ansawdd y dasg o wylio cyfres o fideos camerâu corff o swyddogion rheng flaen yn rhyngweithio â dioddefwyr treisio a throseddau rhyw difrifol yn unig; gan ganiatáu i adborth a ddarparwyd o'r amser adrodd cyntaf gael ei fewnosod mewn perthynas â'r gwasanaeth rhithwir GoodSAM. Gofynnwyd i'r Panel Sicrhau Ansawdd adolygu'r fideo ac ystyried y canlynol:


- Gwasanaeth yr heddlu i ddioddefwyr treisio a throseddau rhyw difrifol drwy asesu cydymffurfedd swyddogion rheng flaen ynghylch y pum cyfiawnder gweithdrefnol (tegwch, urddas a pharch, llais a chydnabyddiaeth, diogelwch, dibynadwyedd).


Am wybodaeth gefndirol mewn perthynas ag Ymgyrch Soteria a'r pum egwyddor cyfiawnder gweithdrefnol, ailedrychwch ar yr adroddiad cyntaf yma.


## 2. Crynodeb gweithredol


Bu aelodau'r Panel Sicrhau Ansawdd yn asesu pedwar achos. Dyma grynodeb o'u gwerthusiad o berfformiad Heddlu Dyfed-Powys mewn perthynas â phump egwyddor cyfiawnder gweithdrefnol.



**Asesiad cyffredinol:**

**Pwyntiau cadarnhaol:**

**Tystiolaeth o swyddogion yn dangos ymarweddiad cefnogol**

- Ym mhob achos a welodd y Panel Sicrhau Ansawdd, dangosodd y swyddogion ymatebion cwrtais, empathig a pharchus i ddioddefwyr treisio a throseddau rhyw difrifol tra hefyd yn parchu eu dymuniadau ynghylch a oeddent yn dymuno bwrw ymlaen â'r prosesau cyfiawnder troseddol a diogelu.

**Gwasanaethau cymorth y cyfeiriwyd atynt**

- Gwnaeth y swyddogion gyfeirio at wahanol wasanaethau cymorth yn briodol, gan gynnwys Llwybrau Newydd a gweithwyr cymorth cymdeithasol.

**Meysydd i'w gwella:**

**Penodi swyddog o'r un rhyw**

- Er bod swyddogion o'r ddau ryw yn cael eu hyfforddi i gynorthwyo dioddefwyr treisio a throseddau rhyw difrifol, gall ymrwymiadau gweithredol atal y cyfle i ddioddefwyr gael y dewis hwn.

**Trawsyriannedd radio ymyrgar**

- Nid oes rhaid i swyddogion wisgo clustffonau a roddwyd iddynt i geisio gwybodaeth yn unol â'r Llyfryn Cyf-weld â Thystion (WIB) gan ddioddefwyr. Penderfynodd y Panel Sicrhau Ansawdd fod trawsyriannedd radio yn ymyrryd ar ddatgeliadau sensitif.

**Jargon yr heddlu**

- Canfu'r Panel Sicrhau Ansawdd dystiolaeth bod swyddogion rheng flaen yn defnyddio jargon yr heddlu yn ystod eu

rhyngweithiadau â dioddefwyr treisio a throseddau rhyw difrifol, a allai eu hatal rhag deall y broses cyfiawnder troseddol.

## 3. Materion a godwyd gan y Panel Sicrhau Ansawdd

| Arsylwadau | Ymateb yr heddlu |
|---|---|
| O’r holl ddarnau o fideo o gamerâu corff rheng flaen a welwyd, nid oedd unrhyw dystiolaeth bod y dioddefydd wedi cael cyfle i ddatgan ei ddewis ynghylch rhywedd y swyddog yr oedd yn dymuno siarad ag ef. A allwch chi egluro, a ydyw hwn yn drefniant ymlaen llaw, neu a ddylid cofnodi hyn ar yr adeg y mae’r swyddogion yn cyrraedd y lleoliad? | *Bydd Ymgyrch Soteria yn dweud y dylai’r heddlu roi cynnig i ddioddefwyr i ddewis swyddog gwrywaidd neu fenywaidd i fod yn bresennol yn ystod adroddiadau am dreisio. Mae hyn wedi bod yn destun trafod yn ystod hyfforddiant datblygiad proffesiynol parhaus y Model Gweithredu Cenedlaethol yn ddiweddar yn Heddlu Dyfed-Powys. Mae Heddlu Dyfed-Powys wedi gweld cynnydd sylweddol yn nifer y swyddogion hyfforddedig troseddau rhyw gwrywaidd a benywaidd, sy’n golygu bod mwy o gyfle i anfon swyddog sydd â’r sgiliau cywir i fod yn bresennol mewn troseddau o’r fath. Yn anffodus, bydd ymrwymiadau gweithredol, amseriad rhai adroddiadau (h.y. yn oriau mân y bore) a’r ffaith bod swyddogion ar ddyletswyddau eraill yn golygu na ellir bob amser warantu bod swyddog hyfforddedig troseddau rhyw neu swyddog â’r rhywedd dewisol ar gael. Felly, byddai’n annheg i ddioddefydd ein bod yn gofyn y cwestiwn hwn ac yna’n methu â pharchu’r dymuniad wedi hynny. Dim ond os yw’r heddlu’n gallu anfon swyddog sy’n bodloni dymuniadau’r dioddefydd y dylid gofyn y cwestiwn hwn i ddioddefwyr.* |
| Gwnaeth y camera corff gofnodi sŵn cefndirol o radio’r swyddog. A allwch chi ddweud a ydyw hyn oherwydd sensitifrwydd y camera corff, neu a ydyw hyn yn rhywbeth y byddai’r dioddefydd wedi bod yn agored iddo?<br><br>Os felly, roedd y Panel Sicrhau Ansawdd o’r farn bod y | *Darperir clustffonau i swyddogion fel y gellir atal trafodion radio rhag cael eu clywed gan bobl eraill. Yn sicr, mewn achosion difrifol a chymhleth fel troseddau rhyw a marwolaethau sydyn, argymhellir bod swyddogion yn defnyddio’r offer hwn oherwydd sensitifrwydd y digwyddiad y mae’r swyddog yn ymdrin ag ef. Ers cyflwyno camerâu corff yn* |

| | |
|---|---|
| radio yn ymyrryd ar y gwaith o ymdrin â datgeliadau sensitif a phreifat. Fodd bynnag, roeddent yn gwerthfawrogi y byddai angen i swyddogion fod ar gael yn weithredol rhag ofn bod argyfwng. A ddylai swyddogion rheng flaen ystyried naill ai gwisgo clustffon neu ostwng sain y radio wrth gynnal ymholiadau gyda dioddefwyr treisio a throseddau rhyw difrifol? | *Heddlu Dyfed-Powys, mae'r defnydd anorfodol o glustffonau wedi creu problemau o ran datgelu gan y byddai angen golygu unrhyw gyfathrebiadau y gellir eu clywed nad ydynt yn ymwneud â'r digwyddiad yr oedd y swyddog hwnnw yn bresennol ar ei gyfer cyn i ffeil achos gyrraedd y llys. Gellir cynnwys yr argymhelliad uchod yn y Llyfryn Ymateb i Dreisio a Throseddau Rhyw Difrifol a ddatblygwyd yn ddiweddar fel rhan o'r aide memoire.* |
| O ran achos 2, cyn gynted ag y datgelwyd y term 'treisio', roedd yn ymddangos bod y swyddog wedi symud ymlaen yn syth at geisio gwybodaeth yn unol â'r WIB. Roedd y Panel Sicrhau Ansawdd o'r farn bod hyn wedi ei wneud yn frysiog. A allwch chi gynghori beth fyddai'r arfer gorau i swyddogion gydymffurfio ag ef wrth geisio manylion gan ddioddefwyr sy'n dewis datgelu digwyddiad o dreisio a throseddau rhyw difrifol? | *Er mwyn helpu dioddefwyr i ddeall y broses cyfiawnder troseddol, mae angen esboniad am y camau mewn ymchwiliad i sicrhau y gall dioddefwyr wneud penderfyniad gwybodus ynghylch a ddylid cefnogi canlyniad cyfiawnder troseddol ai peidio. Gallai'r risg o beidio â gwneud hynny olygu bod dioddefwyr yn cael eu cynnwys yn y broses heb iddynt ymrwymo'n llawn i'r canlyniad, a gallai hyn arwain at gyfraddau uchel o adael cyn gorffen a chyn cyhuddo. Cyfrifoldeb y swyddogion yw cyfathrebu â'r dioddefwyr am yr opsiynau sydd ar gael i'r dioddefydd, y dylid eu gosod ar gyflymder sy'n addas i'r dioddefydd, ac yna mynd ymlaen i gael adroddiad cychwynnol os yw'r dioddefydd wedi dewis ymgysylltu a gwneud cwyn.* |
| Roedd rhywfaint o'r iaith a ddefnyddiwyd gan y swyddogion yn ymddangos yn ffurfiol, ac weithiau byddent yn defnyddio 'jargon' yr heddlu yn ystod eu rhyngweithio. A oes unrhyw hyfforddiant penodol y mae swyddogion yn ei gael o ran sut y maen nhw'n cyfathrebu â dioddefwyr, | *Anogir swyddogion heddlu yn eu hyfforddiant cychwynnol yn ystod eu cyfnod prawf i beidio â defnyddio jargon yr heddlu wrth ymgysylltu â dioddefwyr ac wrth gofnodi'r wybodaeth ddiweddaraf ar systemau'r heddlu. Mae hyn er mwyn atal dioddefwyr rhag teimlo'n ddryslyd, ac mae'n darparu tryloywder pe bai unrhyw gofnodion heddlu yn destun archwiliad a chraffu. Os oes patrwm o swyddogion yn defnyddio* |

| | |
|---|---|
| sy'n osgoi hyn? | *jargon, bydd hyn yn cael ei fwydo'n ôl i'r man cyswllt ar gyfer swyddogion mewn lifrai sy'n ymwneud ag achosion o dreisio a throseddau rhyw difrifol.* |
| O ran achos 4:<br><br>1) Roedd y swyddog yn cael trafodaeth gyda'r rhingyll dros y radio y tu allan i'r eiddo ynglŷn ag amrywiol agweddau ar y datgeliad, a gofynnodd y panel a oedd hyn yn torri cyfrinachedd. A ellir dilysu hyn?<br><br>2) Yn eich asesiad, a ddylai'r swyddogion a oedd yn ymdrin â'r achos fod wedi ystyried eu hamgylchedd wrth geisio gwybodaeth yn unol â'r WIB?<br><br>3) Mynegodd y Panel Sicrhau Ansawdd bryderon ynglŷn â thôn a sylwadau amhriodol gan y swyddog arweiniol. A allwch chi edrych ar yr asesiad hwn a rhoi gwybod a fyddech chi'n cytuno ag ef? | *1) Na, ni fyddai hyn yn torri cyfrinachedd. Byddai'r rhingyll yn cymryd cyfrifoldeb dros oruchwylio'r ymchwiliad ar y pwynt hwn cyn i'r ymchwiliad gael ei ddyrannu i'r adran Ymchwilio i Droseddau. Mae angen i'r rhingyll fod yn ymwybodol o'r holl wybodaeth sydd ar gael iddo er mwyn cynnal asesiadau risg a goruchwylio ymholiadau yr awr euraidd. Dylai'r amgylchedd lle mae'r wybodaeth yn cael ei rhannu â goruchwylydd y swyddog fod yn addas ac yn gyfrinachol, allan o glyw unrhyw un nad oes angen iddo glywed gwybodaeth ddiweddaraf y swyddog.*<br><br>*2) Dylent; yn debyg i'r ateb yng nghwestiwn 1, dylai'r amgylchedd fod yn addas ac yn gyfrinachol. Byddai'n briodol i'r swyddog ofyn i'r dioddefydd a hoffai symud i ardal fwy cyfforddus. Fodd bynnag, pe byddai'n well gan y dioddefydd aros yn y fan a'r lle, h.y. ar y grisiau, dylid gofyn yn gwrtais i unrhyw un arall yn yr ystafell ymadael, oni bai eu bod yn cefn-ogi'r dioddefydd. Pe byddai'r dioddefydd yn dymuno i unigolyn aros yn yr ystafell, mae'n rhaid i'r swyddog-ion gadarnhau a ydyw'r dioddefydd wedi dweud wrth yr unigolyn hwnnw beth sydd wedi digwydd, a dylid gwneud ymdrechion i gael datganiad tyst ganddynt* |

| | |
|---|---|
| | *cyn iddynt fod yn bresennol yn ystod adroddiad cychwynnol y dioddefydd. Mae hyn yn cynnal annibyniaeth yn nhystiolaeth y tyst.*<br><br>*3) Sylwais innau ar ddefnydd iaith y swyddog. Y themâu a safodd allan i mi oedd natur anffurfiol y swyddog yn y digwyddiad. Roedd nifer o gwestiynau arweiniol a chaeedig y dylai swyddogion eu defnyddio i ofyn cwestiynau agored i atal cyfreithwyr yr amddiffyniad rhag cyhuddo dioddefwyr o gael eu hannog i ddweud wrth yr heddlu beth a ddigwyddodd. Dylid nodi na fydd swyddogion rheng flaen yn cael eu hyfforddi i'r un lefel ag ymchwiliadau o ran arddulliau cyf-weld.* |
| A ydyw swyddogion dan bwysau i sicrhau bod y dioddefydd yn bwrw ymlaen ag erlyniad cyfiawnder troseddol, neu a oes pwysau ar y swyddogion i osgoi annog dioddefwyr yn weithredol i fwrw ymlaen â phroses cyfiawnder troseddol? | *Ni ddylai swyddogion berswadio dioddefwyr i ymgysylltu â'r broses cyfiawnder troseddol, na'u darbwyllo i beidio â gwneud hynny. Mae swyddogion yn gyfrifol am esbonio'r broses, ac am sicrhau dioddefwyr mai eu penderfyniad nhw yw cefnogi canlyniad cyfiawnder troseddol. Mae cyfiawnder gweithdrefnol yn ymwneud â rhoi llais i ddioddefwyr ac adfer elfen o reolaeth y gall troseddau fel treisio ei dileu.* |
| A oes pecyn gwybodaeth i ddioddefwyr i gynorthwyo swyddogion rheng flaen gyda disgwyliadau a chynnig cymorth digonol i ddioddefwyr? Os felly, a ddylai hwn fod ar gael yn hawdd ei gyrchu i bob swyddog wrth fynd i ddigwyddiad treisio a throseddau rhyw difrifol? | *Oes; mae swyddogion yn gallu cael mynediad at y canllaw gwybodaeth i ddioddefwyr, llyfryn aide memoire a'r Llyfryn Ymateb i Dreisio a Throseddau Rhyw Difrifol, sydd newydd ei ddatblygu, i'w cynorthwyo i ymgymryd ag adroddiadau am dreisio. Crëwyd tudalen fewnrwyd Ymgyrch Soteria tua blwyddyn yn ôl yn cynnwys canllawiau perthnasol y gall swyddogion eu cyrchu ar eu terfynellau data symudol. Cyfrifoldeb y swyddogion yw ymgyfarwyddo â'r deunydd sydd* |

| | |
|---|---|
| | *ar gael yn dilyn cylchredeg bwletinau ac erthyglau newydd-ion a gyhoeddir ar fewnrwyd yr heddlu.* |

## 4. Adolygiad o achosion o dreisio a throseddau rhyw difrifol

| **Cofnod 1** |
|---|
| **Amgylchiadau**<br><br>Ymatebodd y swyddog a oedd yn bresennol i'r datgeliad o drais rhywiol, gyda'r dioddefydd yn amharod i fwrw ymlaen â'r Broses Cyfiawnder Troseddol. |
| *A fu'r swyddog yn **deg**?* |
| • Roedd y swyddog yn llawn cydymdeimlad, yn gwrtais, yn gwrando'n ofalus, ac yn parchu penderfyniad y dioddefydd i beidio â bwrw ymlaen.<br>• I ddechrau, roedd y swyddog yn ymddangos yn nerfus ac yn betrusgar ond daeth yn fwy cyfforddus wrth i'r trafodaethau fynd yn eu blaen.<br>• Roedd y Panel Sicrhau Ansawdd yn ansicr ynglŷn â'r cyfathrebu cyn presenoldeb y swyddog, gan fod y dioddefydd i bob golwg heb fod yn ymwybodol o bresenoldeb y swyddog, er iddi gael ei chlywed yn ymddiheuro am hyn.<br>• Holodd y Panel Sicrhau Ansawdd pam mai dim ond un swyddog a neilltuwyd, sef swyddog o ryw gwahanol i'r dioddefydd, gan godi pryderon ynghylch canfyddiad ac addasrwydd. |
| *A wnaeth y swyddog ddangos **urddas** a **pharch** i'r dioddefydd?* |
| • Ni chlywyd y swyddog yn gofyn a fyddai'n well gan y dioddefydd siarad â rhywun o'r un rhyw.<br>• Fodd bynnag, roeddent o'r farn bod y swyddog yn gwrtais ac yn gydwybodol o ran peidio â llethu'r dioddefydd â gwybodaeth ynghylch y broses cyfiawnder troseddol. |

| |
|---|
| *A wnaeth y swyddog wrando ar **lais** y dioddefydd?* |
| • O dan amgylchiadau anodd, roedd y Panel Sicrhau Ansawdd o'r farn bod y swyddog wedi ymdrin â'r sefyllfa yn dda iawn, gyda'i ymddygiad yn addfwyn, yn dawel, yn amyneddgar ac yn cynnig tawelwch meddwl yn rheolaidd.<br>• Fodd bynnag, sylwodd rhai aelodau o'r Panel Sicrhau Ansawdd fod y swyddog wedi aros ar ei draed drwy gydol y rhyng-weithio, a allai ymddangos i'r dioddefydd naill ai fel rhywun awdurdodol neu ei fod ar frys. |
| *A wnaeth y swyddog ystyried **diogelwch** y dioddefydd?* |
| • Arweiniodd datgeliad hunan-niweidio'r dioddefydd at ymgynghoriad â'r gweithiwr cymdeithasol, lle rhoddodd y swyddog flaenoriaeth i lesiant dros ymchwiliad.<br>• Sicrhaodd y swyddog hefyd na fyddai'r dioddefydd ar ei phen ei hun ar ôl i'r heddlu ymadael, drwy drafod cynlluniau'r dioddefydd am weddill y diwrnod. |
| *A wnaeth y swyddog ddangos ei fod yn **ddibynadwy**?* |
| • Tybiwyd bod y swyddog wedi bod yn barchus o ddymuniadau a phryderon y dioddefydd.<br>• Datgelodd y dioddefydd fod ganddi brofiad blaenorol o fwrw ymlaen â'r broses cyfiawnder troseddol ar gyfer honiad tebyg. Ni chlywyd y swyddog yn cydnabod hyn nac yn cyfeirio at wasanaethau cymorth priodol. |
| *A godwyd unrhyw beth **cadarnhaol** gan y panel?* |
| • Dangosodd y swyddog empathi rhagorol tra hefyd yn atgoffa ac yn annog y dioddefydd yn ysgafn i ddatgelu manylion pellach ynghylch y treisio.<br>• Roedd y swyddog yn parchu dymuniadau'r dioddefydd, ac yn rhoi amser iddi ystyried ei dymuniadau. |

| *A wnaeth y panel ystyried unrhyw **feysydd i'w gwella**?* |
|---|
| • Holodd y Panel Sicrhau Ansawdd a gynigiwyd y dewis o'r un rhyw i'r dioddefydd.<br>• Ystyriwyd bod radio ymateb y swyddog wedi ymyrryd ar y trafodaethau. |
| *A godwyd unrhyw **gwestiynau**?* |
| • A roddwyd cyfle i'r dioddefydd fynegi ei dewis i siarad â swyddog o'r un rhyw?<br>• Gwnaeth y camera corff gofnodi gwybodaeth gefndirol o radio'r swyddog. A allwch chi ddweud a ydyw hyn oherwydd sensitifrwydd y camera corff, neu a ydyw hyn yn rhywbeth y byddai'r dioddefydd wedi ei glywed? Gan y byddai angen i swyddogion fod ar gael yn weithredol mewn argyfwng, a ddylai swyddogion rheng flaen ystyried naill ai gwisgo clustffon, neu ddiffodd eu radio wrth geisio gwybodaeth sensitif mewn perthynas â dioddefwyr treisio a throseddau rhyw difrifol? |

| **Cofnod 2** |
|---|
| **Amgylchiadau**<br><br>Roedd y swyddogion yn ymateb i ddigwyddiad arall pan ddatgelodd y dioddefydd achos o dreisio hanesyddol. |
| *A fu'r swyddog yn **deg**?* |
| • Dangosodd y swyddog ymagwedd anfeirniadol, ac ymatebodd yn briodol i sefyllfa ddynamig.<br><br>• Roedd y Panel Sicrhau Ansawdd o'r farn bod y swyddog wedi bod yn frysiog wrth benderfynu bod angen dilyn y broses o geisio gwybodaeth yn unol â'r WIB. Fodd bynnag, unwaith y cwblhawyd ceisio gwybodaeth yn unol â'r WIB, roedd yn ymddangos bod y rhyngweithio rhwng y swyddog a'r dioddefydd yn ysgafnhau, gyda'r swyddog yn cynnig llawer mwy o wybodaeth ynglŷn â'r camau nesaf. |
| *A wnaeth y swyddog ddangos **urddas** a **pharch** i'r dioddefydd?* |
| • Roedd tri swyddog o'r ddau ryw ar y safle, ac ni chlywyd y swyddog arweiniol a fu'n ceisio gwybodaeth yn unol â'r WIB yn cynnig y dewis i'r dioddefydd i gael cwestiynau wedi'u gofyn gan rywun o'r un rhyw.<br><br>• Roedd y swyddog arweiniol wedi egluro y byddai'r broses o geisio gwybodaeth yn unol â'r WIB yn gofyn am rywfaint o ysgrifennu, a fyddai'n golygu adegau o ddistawrwydd hir. Roedd y Panel Sicrhau Ansawdd o'r farn bod hyn yn beth cwrtais i'w ddweud, ac yn arfer gorau gan ei fod yn gosod disgwyliadau ar gyfer y broses ofynnol o roi tystiolaeth, tra'n cynnal urddas wrth ymateb i atebion y dioddefydd. |
| *A wnaeth y swyddog wrando ar **lais** y dioddefydd?* |

- Gwelwyd y dioddefydd yn llofnodi’r adroddiad yn unol â’r WIB heb ei ddarllen na heb i rywun ei ddarllen iddi, er gwaethaf y ffaith bod y swyddog wedi gwneud ymdrechion di-ri i annog hynny.
- Er bod y swyddogion yn bresennol i ymdrin â digwyddiad ar wahân, cydnabu’r swyddog arweiniol y datgeliad o dreisio ar unwaith, a gwnaed yr ymholiadau dilynol ar gyflymder addas i’r dioddefydd.
- Roedd y swyddog arweiniol yn swnio’n swil wrth ofyn am fanylion am y weithred rywiol ymwthiol.
- Cynigiodd y swyddog dawelwch meddwl ar fwy nag un achlysur, gan gynghori ar ba mor anodd yw datgelu rhywbeth o’r fath.

*A wnaeth y swyddog ystyried **diogelwch** y dioddefydd?*

- Cynhaliodd y swyddog asesiad risg Cam-drin Domestig, Stelcian ac Aflonyddu (DASH) ar ôl cydnabod bod y treisio wedi’i gyflawni gan gyn-bartner, gan gynghori bod hyn i gynorthwyo diogelwch y dioddefydd.
- Holodd y swyddog ynglŷn â’r darpariaethau a’r bobl a fyddai ar gael ar ôl i’r heddlu ymadael.
- Rhoddwyd cyngor ynghylch sicrhau bod y ffôn yn cael ei wefru a’i gadw ymlaen bob amser rhag ofn y byddai swyddogion arbenigol yn galw eto i ganfod manylion pellach.
- Clywyd swyddogion eraill yn y cefndir yn rhoi cyfeiriadau ar gyfer gwasanaeth Llwybrau Newydd. Roeddent yn ceisio canfod pa gymorth yr oedd y dioddefydd yn ei gael ar hyn o bryd.

*A wnaeth y swyddog ddangos ei fod yn **ddibynadwy**?*

- Dangosodd y swyddog arweiniol ymrwymiad personol i’r dioddefydd y gellid cysylltu â’r heddlu pe bai ganddi unrhyw gwestiynau pellach yn y cyfamser ar ôl i swyddogion arbenigol gysylltu â hi mewn perthynas â’r datgeliad o dreisio.
- Roedd y dioddefydd yn ymddangos yn gyfforddus drwy gydol y rhyngweithio â phresenoldeb y swyddogion.

*A godwyd unrhyw beth **cadarnhaol** gan y panel?*

| |
|---|
| • Clywodd aelodau'r Panel Sicrhau Ansawdd y swyddogion yn rhoi cyfeiriadau at wasanaethau cymorth perthnasol.<br>• Mynegodd y swyddogion ymrwymiad personol i'r dioddefydd drwy gynnig ateb unrhyw gwestiynau ar ôl cymryd manylion y digwyddiad. |
| *A wnaeth y panel ystyried unrhyw **feysydd i'w gwella**?* |
| • Cafwyd cyfnodau hir o dawelwch lle byddai'r swyddog yn ysgrifennu'r adroddiad WIB â llaw. Er bod y Panel Sicrhau Ansawdd yn deall mai dyma'r broses gyfreithiol gyfredol, roedd o'r farn bod yr agwedd hon ar yr ymholiadau yn rhwystr gwirioneddol, ac y gallai gofyn i'r dioddefydd ddarllen trwy fanylion yr adroddiad WIB ailsbarduno'r trawma o ddatgelu'r digwyddiad.<br>• Teimlwyd bod y radio Airwave yn ymyrryd ar y datgeliadau a'r ymholiadau.<br>• Roedd tri swyddog o'r ddau ryw yn bresennol, ac ni fedrodd y Panel Sicrhau Ansawdd wirio ar unrhyw adeg a hoffai'r dioddefydd siarad â rhywun o'r un rhyw.<br>• Roedd rhai aelodau o'r Panel Sicrhau Ansawdd yn teimlo nad oedd angen i dri swyddog fod yn yr un ystafell ar gyfer y datgeliad. Roeddent o'r farn y gellid ymdrin â hyn yn fwy preifat gan y byddai rhai o'r swyddogion yn cynnal sgyrsiau gwahanol ar y radio. |
| *A godwyd unrhyw **gwestiynau**?* |
| • Cyn gynted ag y gwnaed datgeliad am y treisio, gwelwyd y swyddog yn symud ymlaen yn syth at geisio gwybodaeth yn unol â'r WIB. Roedd y Panel Sicrhau Ansawdd o'r farn bod hyn yn sydyn. A allwch chi gynghori ar yr arfer gorau o ran cael manylion gan ddioddefwyr sy'n dewis datgelu?<br>• Roedd rhywfaint o'r iaith a ddefnyddiwyd gan y swyddogion yn ymddangos yn ffurfiol, ac weithiau byddent yn defnyddio 'jargon' yr heddlu yn ystod y rhyngweithio. A ydyw swyddogion yn cael unrhyw hyfforddiant penodol o ran sut y maen nhw'n cyfathrebu â dioddefwyr? |

| **Cofnod 3** |
|---|
| **Amgylchiadau**<br>Mae swyddogion yn ymateb i ddigwyddiad domestig lle datgelwyd trais rhywiol yn yr asesiad risg DASH. |
| *A fu'r swyddog yn **deg**?* |
| • Roedd y dioddefydd o bosibl yn cael pyliau o banig wrth geisio adrodd yr hyn a ddigwyddodd. Rhoddodd y swyddog arweiniol gyfarwyddyd ar dechnegau anadlu, ac roedd y Panel Sicrhau Ansawdd o'r farn bod hyn yn ddefnyddiol.<br>• Roedd cydberthynas glir i'w weld rhwng y dioddefydd a'r swyddog, ac ni ddangoswyd unrhyw arwydd o farnu. |
| *A wnaeth y swyddog ddangos **urddas** a **pharch** i'r dioddefydd?* |
| • Roedd y swyddog a siaradodd â'r dioddefydd o'r un rhyw.<br>• Dangosodd y swyddog ddull cyf-weld empathig o dan amgylchiadau anodd, gyda'r dioddefydd yn amlwg wedi'i chynhyrfu.<br>• Nid oedd y dioddefydd yn ymddangos yn amharod i ymateb, ond roedd yn ei chael hi'n anodd datgelu'r cyfarfyddiad. Roedd y swyddog yn dyner yn ei dyfalbarhad wrth gynnal yr ymholiadau, gan ganiatáu i'r dioddefydd ddatgelu yn ei phwys ei hunan. Bu'r swyddog yn chwilio am ddulliau eraill i'r dioddefydd ddatgelu, gan gynnwys ei ysgrifennu yn lle ei ddweud ar lafar, ac roedd y Panel Sicrhau Ansawdd o'r farn bod hynny'n ystyriol ac yn bragmataidd. |
| *A wnaeth y swyddog wrando ar **lais** y dioddefydd?* |
| • Roedd yn ymddangos bod y swyddog yn ymateb i iaith corff y dioddefydd, ac yn defnyddio ei greddf i ganfod bod mwy i'r |

| |
|---|
| digwyddiad na'r hyn a ddatgelwyd yn wreiddiol.<br><br>• Wrth gydnabod teimladau'r dioddefydd, roedd y swyddog wedi cynnig ei llaw i'w chefnogi, a allai fod wedi bod yn amhriodol yn y rhan fwyaf o achosion, ond roedd y Panel Sicrhau Ansawdd o'r farn bod hyn wedi bod yn ddefnyddiol. |
| *A wnaeth y swyddog ystyried **diogelwch** y dioddefydd?* |
| • Roedd y swyddog wedi ystyried nad oedd y dioddefydd mewn sefyllfa i roi gwybodaeth yn unol â'r WIB oherwydd meddwdod, a chynghorodd y byddai hyn yn cael ei ohirio tan fore trannoeth.<br><br>• Ni chlywodd y Panel Sicrhau Ansawdd unrhyw drafodaeth ynglŷn â diogelu; ond gwnaeth yr aelodau ystyried a oedd gan y dioddefydd y galluedd meddyliol i amgyffred y manylion hynny oherwydd y trawma a'r meddwdod.<br><br>• Roedd y swyddog yn daer gyda'i dull o holi er mwyn sicrhau bod yr heddlu yn gallu symud y troseddwr honedig / cyn-bartner o'r tŷ. |
| *A wnaeth y swyddog ddangos ei fod yn **ddibynadwy**?* |
| • Esboniodd y swyddog y broses ar ôl clywed y datgeliad, a bu'n glir o ran ei chamau gweithredu, a oedd yn fuddiol i osod disgwyliadau'r dioddefydd. |
| *A godwyd unrhyw beth **cadarnhaol** gan y panel?* |
| • Roedd ymddygiad y swyddog drwy gydol y rhyngweithio wedi'i anelu at lefel y dioddefwr.<br><br>• Ceisiodd y swyddog ganfod dulliau eraill i helpu'r dioddefydd i ddatgelu'r hyn yr oedd yn peri gofid iddi. |
| *A wnaeth y panel ystyried unrhyw **feysydd i'w gwella**?* |

| |
|---|
| • Roedd y Panel Sicrhau Ansawdd yn teimlo bod rhywfaint o'r iaith lafar y dewisodd y swyddog ei defnyddio, yn cynnwys "Dere 'mlaen", neu "Dydw i ddim yn gallu darllen meddyliau", yn ymadroddion anffodus gan y gellid eu hystyried yn ddidostur neu'n feirniadol. |
| *A godwyd unrhyw **gwestiynau**?* |
| • Roedd rhywfaint o'r iaith a ddefnyddiwyd gan y swyddogion yn ymddangos yn amhriodol yn ystod y rhyngweithio. A ydyw swyddogion yn cael unrhyw hyfforddiant penodol o ran sut y maen nhw'n cyfathrebu â dioddefwyr? |

| **Cofnod 4** |
|---|
| **Amgylchiadau**<br>Mae'r dioddefydd wedi datgelu digwyddiad o dreisio yn y cartref ac y mae'n amharod i rannu manylion na bwrw ymlaen ag ymchwiliad troseddol. |
| *A fu'r swyddog yn **deg**?* |
| • Roedd yn anodd gwirio'r sgwrs rhwng y dioddefydd a'r swyddog, gan fod y ddau swyddog a oedd yn bresennol yn cynnal dwy drafodaeth ar yr un pryd ar ben ac wrth droed y grisiau. Roedd y swyddog arweiniol mewn sefyllfa anodd, gan nad oedd y dioddefydd yn dymuno mynd i mewn i'w chartref oherwydd trawma'r digwyddiad. Holodd y Panel Sicrhau Ansawdd a allai cydymaith y swyddog arweiniol wedi siarad â'r unigolyn anhysbys y tu allan neu yng ngherbyd yr heddlu er mwyn rhoi mwy o breifatrwydd i'r dioddefydd.<br>• Teimlai aelodau'r Panel Sicrhau Ansawdd, er bod y swyddog wedi dangos amynedd tuag at y dioddefydd, a oedd o bosibl yn hysbys i'r heddlu gan ei bod wedi gwneud nifer o sylwadau drwgdybus ynglŷn â gwasanaeth yr heddlu, a hefyd yn anodd cael atebion ganddi oherwydd ei lefel o feddwdod, eu bod hefyd wedi clywed y swyddog arweiniol yn gwneud nifer o sylwadau beirniadol, a bod y tôn fel pe bai'n awgrymu y gallai'r dioddefydd fod wedi gwneud mwy i atal y digwyddiad.<br>• Nodwyd nad oedd y Panel Sicrhau Ansawdd wedi clywed unrhyw eiriau yn cael eu cynnig i roi tawelwch meddwl na chydnabyddiaeth o ran empathi yn ystod y datgeliad.<br>• Roedd y swyddog wedi defnyddio terminoleg jargonllyd, yn cynnwys lleoliad y *SARC*, wrth gyfeirio at y Ganolfan Gyfeirio Ymosodiadau Rhyw, ac ni eglurodd *y cyfnod casglu tystiolaeth fforensig* yn glir. |
| *A wnaeth y swyddog ddangos **urddas** a **pharch** i'r dioddefydd?* |

| |
|---|
| <ul><li>Roedd y swyddog yn cael trafodaeth gyda'r rhingyll dros y radio y tu allan i'r eiddo ynglŷn ag amrywiol agweddau ar y datgeliad, a gofynnodd y panel a oedd hyn yn torri cyfrinachedd. Roedd tôn y sgwrs yn ymddangos yn feirniadol o safbwynt y swyddog hefyd.</li><li>Fwy nag unwaith, dywedodd y dioddefydd ei bod "eisiau marw" ond ni chafodd hynny ei gydnabod ac ni chynigiwyd tawelwch meddwl. Teimlai'r Panel Sicrhau Ansawdd fod hynny'n amharchus.</li><li>Roedd y swyddog wedi cynnig mynd â'r dioddefydd i unrhyw leoliad lle byddai'n teimlo'n ddiogel yn y cyfamser gan fod ei heiddo'n cael ei gloi at ddibenion casglu tystiolaeth.</li></ul> |
| *A wnaeth y swyddog wrando ar **lais** y dioddefydd?* |
| <ul><li>Datgelodd y dioddefydd iddi gael ei cham-drin yn blentyn, ac ni chynigiodd y swyddog unrhyw dawelwch meddwl na chymorth cyfeirio ar y pryd.</li></ul> |
| *A wnaeth y swyddog ystyried **diogelwch** y dioddefydd?* |
| <ul><li>Roedd y swyddog wedi cynnig cyfle i'r dioddefydd ddewis lle diogel i aros ynddo yn y cyfamser gan y byddai ei chartref yn cael ei gloi a'i gadw ar gyfer tystiolaeth fforensig.</li><li>Oherwydd meddwdod tybiedig y dioddefydd a diffyg ymddiriedaeth yn yr heddlu, bu'n anodd i'r swyddog feithrin cydberthynas; fodd bynnag, teimlwyd bod hyn wedi'i gyflawni erbyn diwedd eu rhyngweithio.</li></ul> |
| *A wnaeth y swyddog ddangos ei fod yn **ddibynadwy**?* |
| <ul><li>Er bod y dioddefydd wedi cael gwybod am y weithdrefn brofi a manylion ynghylch SARC, nid oedd hyn yn ymddangos yn gynhwysfawr.</li></ul> |

- Disgrifiodd y dioddefydd ei hymddygiad tuag at yr heddlu ar achlysuron blaenorol fel un a oedd yn anghydweithredol, a chytunodd y swyddog, ond yna dywedodd nad oedd hyn yn wir ar yr achlysur hwn.

*A godwyd unrhyw beth **cadarnhaol** gan y panel?*

- Dangosodd y swyddog amynedd drwy gydol y rhyngweithio, ac ar adegau gallai'r dioddefydd fod yn fygythiol neu'n swta i gwestiynau'r swyddog.
- Yn ystod y datgeliad, roedd y swyddog wedi cwmanu i fod ar yr un lefel â'r dioddefydd er mwyn cymryd manylion yn unol â'r WIB. Roedd y Panel Sicrhau Ansawdd o'r farn bod hyn wedi bod yn gwrtais ac yn barchus.

*A wnaeth y panel ystyried unrhyw **feysydd i'w gwella**?*

- Nid oedd yn ymddangos bod y swyddog wedi cyfleu'r broses mewn iaith hawdd i'w deall, ac ymddangosai'n ansicr o'r broses.
- Roedd y penderfyniad i geisio gwybodaeth yn unol â'r WIB ar y grisiau ochr yn ochr â'i gydymaith, a oedd hefyd yn cynnal ei ymholiadau, yn ymddangos yn anaddas ar gyfer cwestiynau preifat a sensitif y swyddog, ac yn tynnu sylw'r dioddefydd.

*A godwyd unrhyw **gwestiynau**?*

- Roedd y swyddog yn cael trafodaeth gyda'r rhingyll dros y radio y tu allan i'r eiddo ynglŷn ag amrywiol agweddau ar y datgeliad, a gofynnodd y panel a oedd hyn yn torri cyfrinachedd. A ellir dilysu hyn?
- A ddylai'r swyddogion a oedd yn bresennol wedi ystyried amgylcheddau amgen i geisio gwybodaeth yn unol â'r WIB?
- A ydyw swyddogion dan bwysau i sicrhau bod y dioddefydd yn bwrw ymlaen ag erlyniad cyfiawnder troseddol?
- A oes pecyn gwybodaeth i ddioddefwyr i gynorthwyo swyddogion rheng flaen gyda disgwyliadau a chynnig cymorth digonol i ddioddefwyr? Os felly, a ddylai hwn fod ar gael yn hawdd ei gyrchu i bob swyddog wrth fynd i ddigwyddiad treisio a

| |
|---|
| throseddau rhyw difrifol? |

## 5. Camau nesaf

Mae Heddlu Dyfed-Powys wedi pennu dyddiad i gychwyn y Panel Craffu ar Dreisio: Dim Gweithredu Pellach ar ddiwedd mis Ionawr 2026. Bydd y panel yn canolbwyntio ar bedwar achos lle na fyddai unrhyw weithredu pellach er mwyn canfod ai dyma'r penderfyniad cywir. Bydd y panel yn cynnwys cynrychiolwyr o'r heddlu, Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu, Llwybrau Newydd a Gwasanaeth Erlyn y Goron, a fydd yn cyfarfod bob deufis.

Diben y panel fydd ceisio cyfarwyddyd a chyngor ar benderfyniad cyn cyhuddo pob achos. Bydd y craffu yn gweithio mewn partneriaeth â Heddlu Gogledd Cymru, a fydd yn edrych ar achosion treisio Heddlu Dyfed-Powys ac i'r gwrthwyneb.

Gobeithir y bydd y panel yn darparu dysgu parhaus i swyddogion heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron er mwyn sicrhau bod ymchwiliadau sy'n cynnwys treisio a throseddau rhyw difrifol yn gyson, yn effeithiol ac yn gyfannol wrth gasglu tystiolaeth, ac yn bwysicaf oll, yn ymgysylltu ac yn empathig tuag at y dioddefwyr-oroeswyr drwyddi draw.